

Arolygiad Ysbyty (Ymweliad Dilynol – Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf: **Ysbyty Cwm
Cynon, Ward 3**

Dyddiad arolygiad: 5 Mai 2016

Dyddiad cyhoeddi: 8 Awst 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun.....	5
4.	Crynodeb	6
5.	Canfyddiadau	7
	Ansawdd Profiad y Claf	7
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	10
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.


Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad (dilydol) dirybudd o Ward 3 yn Ysbyty Cwm Cynon o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 5 Mai 2016.

2. Methodoleg

Mae amrywiaeth o ddulliau a methodolegau ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, ac rydym yn dewis y rhai mwyaf priodol yn ôl amrywiaeth ac ystod y gwasanaethau yr ydym yn bwriadu eu harolygu. Mae arolygiadau trylwyr o un ward yn caniatáu inni gymryd golwg hynod fanwl ar agwedd fach ar ddarpariaeth o ofal iechyd, tra bo'r sylw cynyddol a gynigir trwy ymweld â nifer fwy o wardiau ac adrannau'n ein galluogi i gynnal asesiad mwy cadarn o themâu a phroblemau o ran y bwrdd iechyd dan sylw. Yn y ddau achos, caiff adborth ei wneud ar gael i wasanaethau iechyd mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal (gweler Ffigur 1) wrth galon dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn GIG Cymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1



Mae arolygiadau o ysbytai'r GIG yn ddirybudd, ac rydym yn arolygu ac yn adrodd mewn perthynas â thair thema:

- **Ansawdd Profiad y Claf:**
Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol:**
Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.
- **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth:**
Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y tîm arolygu yn cynnwys un rheolwr arolygu (a arweiniodd yr arolygiad), rheolwr arolygu cynorthwyol ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau a chyfweliadau â staff
- Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion gofal cleifion
- Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd
- Ymatebion yn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach sy'n gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnal urddas a gofal hanfodol.

3. Cyd-destun

Lleolir Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn ne Cymru, ychydig i'r gogledd o Gaerdydd, rhwng Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a thraffordd yr M4. Mae'r bwrdd iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Agorodd Ysbyty Cwm Cynon oddeutu pedair blynedd yn ôl ac fe'i lleolir yn Aberpennar.

Ar Ward 3, mae 25 o wllâu cleifion sydd wedi'u rhannu er mwyn darparu cymysgedd o gilfannau pedwar gwely a chiwbiclau. Mae'r ward yn derbyn cleifion gwrywaidd a benywaidd sydd angen gofal adsefydlu a gwasanaethau therapi.

4. Crynodeb

Prif bwrpas yr arolygiad hwn oedd dilyn cyrhaeddiad y bwrdd iechyd o ran mynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol a nodwyd yn ein harolygiad diwethaf yn 2014.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom wahodd cleifion a/neu eu hymwelwyr i gwblhau holiadur AGIC er mwyn rhannu â ni eu safbwyntiau ar amgylchedd y ward, staff yr ysbyty, a'r gofal roeddent wedi'i dderbyn. Cadarnhaodd y sylwadau a dderbyniwyd gennym fod y cleifion yn fodlon ar eu gofal.

Canfuom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud o ran asesiadau ymataliaeth a hefyd o ran cofnodion cyfarfodydd amlddisgyblaethol rhwng staff gofal iechyd a therapi i gynllunio'r trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion. Roedd angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau pellach i gyflawni gwelliannau parhaus o ran staff yn cofnodi eu hasesiadau a gwaith monitro o boen cleifion.

Gwelsom fod staff yn helpu cleifion i fwyta ac yfed. Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod y jygiau dŵr yn cael eu newid deirgwaith y dydd, yn unol â safonau cenedlaethol.

Canfuom fod y ffordd y cedwir meddyginiaeth wedi gwella ers ein hymweliad diwethaf. Gwelsom hefyd fod staff nyrsio yn sicrhau bod cleifion wedi cymryd eu meddyginiaeth cyn llofnodi'r cofnod gweinyddu meddyginiaeth.

Roedd angen gwelliannau pellach o ran cadw cofnodion i sicrhau y cedwir cynlluniau gofal y cleifion yn gywir a chyfredol.

Dangosodd ein harsylwadau adeg yr arolygiad fod digon o staff gyda'r wybodaeth a'r sgiliau cywir i ddiwallu anghenion gofal y cleifion. Dywedwyd wrthym y gellir gofyn am staff ychwanegol i weithio er mwyn sicrhau bod digon o staff yn gweithio ar y ward.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom wahodd cleifion a/neu eu hymwelwyr i gwblhau holiadur AGIC er mwyn rhannu â ni eu safbwyntiau ar amgylchedd y ward, staff yr ysbyty, a'r gofal roeddent wedi'i dderbyn. Cadarnhaodd y sylwadau a dderbyniwyd gennym fod y cleifion yn fodlon ar eu gofal.

Canfuom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud o ran asesiadau ymataliaeth a hefyd o ran cofnodion cyfarfodydd amlddisgyblaethol rhwng staff gofal iechyd a therapi i gynllunio'r trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion. Roedd angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau pellach i gyflawni gwelliannau parhaus o ran staff yn cofnodi eu hasesiadau a gwaith monitro o boen cleifion.

Gofal gydag urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle caiff pawb eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd, ac mewn modd sy'n cydnabod anghenion ffisegol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigol. (Safon 4.1)

Cwblhawyd cyfanswm o naw o holiaduron, naill ai drwy gyfweiliadau wyneb yn wyneb neu drwy eu dychwelyd i ni ar wahân yn ystod yr arolygiad. Dangosodd y sylwadau a dderbyniwyd fod staff wedi bod yn gwrtais wrth gleifion a'u teuluoedd/frindiau ar bob adeg.

Gwelsom staff yn bod yn gyfeillgar a charedig gyda'r cleifion a'u hymwelwyr. Cadarnhawyd hyn ymhellach yn y sylwadau a wnaethpwyd yn yr holiaduron, lle dywedwyd wrthym fod staff wedi bod yn garedig a sensitif tuag at gleifion wrth ddarparu gofal a thriniaeth. Pan ofynnwyd iddynt raddio'r gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u derbyn, rhoddodd y cleifion a/neu eu perthnasau radd rhwng saith a deg allan o ddeg.

Yn ystod ein harolygiad diwethaf, gwnaethom nodi bod angen cyflawni gwelliannau o ran staff yn cofnodi eu hasesiadau a gwaith monitro o boen cleifion. Roedd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer y cleifion hynny ag anghenion cymhleth na fyddent o bosibl yn medru dweud wrth y staff pe baent mewn poen.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal cleifion. O fewn y sampl hon, gwnaethom edrych ar gofnodion gofal ar gyfer wyth claf, gan ganolbwyntio ar ofal rheoli poen. Canfuom nad oedd sgorau poen y cleifion yn cael eu cofnodi'n rheolaidd. Er bod y cleifion wedi derbyn presgripsiynau ar gyfer cyffuriau lleddfu poen, ar y cyfan ni ddangosodd y cofnodion fod staff yn asesu poen y cleifion yn rheolaidd nac yn gwerthuso effeithiolrwydd y camau gweithredu a gymerwyd (gan gynnwys y defnydd o gyffuriau) i leddfu poen. Pan wnaethom ofyn i'r cleifion sut yr oedd y staff yn rheoli eu poen, dywedwyd wrthym fod y staff wedi gofyn iddynt am eu poen a'u bod wedi eu helpu i deimlo'n fwy cyfforddus. Roedd y cleifion a welsom hefyd yn ymddangos yn gyfforddus. Rhoddodd hyn beth sicrwydd i ni fod poen y cleifion yn cael ei rheoli'n effeithiol gan y tîm o staff.

Mewn ymateb i'n harolygiad diwethaf, dywedodd y bwrdd iechyd y byddai'n gweithredu Graddfa Boen Abbey¹ i helpu gyda monitro a gwerthuso cleifion na allent fynegi poen ar lafar. Er i uwch-staff y ward a'r ysbyty esbonio bod y dull hwn wedi'i gyflwyno, ni chafodd defnydd o'r dull ei gynnal. Ni ddarparwyd rheswm boddhaol dros beidio â defnyddio'r dull ar adeg ein harolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Disgwylir i'r bwrdd iechyd ddarganfod y rhesymau pam na chynhaliwyd y defnydd o ddull asesu poen ar y ward. Disgwylir hefyd i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cofnodi eu hasesiad o boen cleifion, eu gwerthusiad o'r camau gweithredu a gymerwyd i leddfu poen y cleifion, ac unrhyw gamau gweithredu pellach a gymerwyd yn dilyn y gwerthusiad hwn.

Canfuom fod y Bwndel Ymataliaeth Cymru Gyfan wedi'i ddefnyddio ar y ward i helpu staff i asesu a rheoli anghenion ymataliaeth cleifion. Cafodd yr enghraifft a welsom ei defnyddio'n gywir a datblygwyd cynllun gofal ysgrifenedig.

Er nad oedd amgylchedd y ward yn ganolbwynt penodol ein harolygiad, gwelsom fod y ward yn lân a thaclus ac yn gyffredinol yn rhydd o annibendod. Awgrymodd sylwadau'r cleifion eu bod hwythau'n teimlo bod y ward yn lân ac yn daclus.

Gofal unigol

¹Dyluniwyd Graddfa Boen Abbey i helpu asesu poen y cleifion hynny na allant fynegi'n eglur eu hanghenion.

Mae'n rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut maent yn gofalu amdanynt eu hunain gan fod cadw annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosïynol.(Safon 6.1)

Gweithiodd tîm y ward gydag aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol er mwyn darparu gofal adsefydlu a gwasanaethau therapi ar gyfer cleifion.

Esboniodd uwch-staff y ward fod ffisiotherapydd yn darparu cynlluniau symudedd ar gyfer cleifion unigol. Roedd hyn er mwyn sicrhau y gallai staff y ward annog a chynorthwyo cleifion i symud yn gywir rhwng ymweliadau'r ffisiotherapydd. Gwelsom fod y cynlluniau hyn ar gael a gwelsom y staff yn cynorthwyo'r cleifion i symud.

Dywedodd uwch-staff yr ysbyty wrthym eu bod yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o ddarparu cefnogaeth therapi ychwanegol ar gyfer cleifion y tu allan i oriau.

Dywedodd uwch-staff y ward wrthym fod cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal a oedd yn cynnwys staff gofal iechyd a therapi er mwyn cynllunio trefniadau rhyddhau cleifion. Gwelsom fod cofnodion wedi'u cadw, yn gosod camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfodydd hyn. Dywedwyd wrthym y byddai staff y ward yn dilyn hynt y camau gweithredu rhwng y cyfarfodydd wythnosol. Dangosodd sylwadau gan rai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ansicr ynghylch y trefniadau er mwyn iddynt adael yr ysbyty.

Dangosodd ein canfyddiadau fod camau gwella wedi'u rhoi ar waith gan y bwrdd iechyd parthed yr uchod, fel y disgrifiwyd yn ei ymateb yn dilyn ein harolygiad blaenorol. Serch hynny, o ystyried y sylwadau gwnaethom eu derbyn gan rai cleifion, dylai'r bwrdd iechyd ymchwilio p'un a ellid gwella cyfathrebu rhwng staff y ward a chleifion yn hyn o beth.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Gwelsom fod staff yn helpu cleifion i fwyta ac yfed. Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod y jygiau dŵr yn cael eu newid deirgwaith y dydd, yn unol â safonau cenedlaethol.

Canfuom fod y ffordd y cedwir meddyginiaeth wedi gwella ers ein hymweliad diwethaf. Gwelsom hefyd fod staff nyrsio yn sicrhau bod cleifion wedi cymryd eu meddyginiaeth cyn llofnodi'r cofnod gweinyddu meddyginiaeth.

Roedd angen gwelliannau pellach o ran cadw cofnodion i sicrhau bod cynlluniau gofal y cleifion yn gywir a chyfredol.

Gofal diogel

Mae pobl yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion o ran maeth a hydradu, er mwyn gwella cymaint â phosibl ar ôl afiechyd neu anaf (Safon 2.5).

Gwelsom fod gwybodaeth ynglŷn â *Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan* ac *Yfwch Ddiferyn* wedi'i harddangos yn amlwg ar y ward. Rhoddodd hyn wybodaeth i'r staff ar sut i gwblhau siartiau bwyd ac ar bwysigrwydd cynnig diodydd i gleifion yn gyson. Darparodd wybodaeth hefyd ynglŷn â'r mentrau hyn ar gyfer ymwelwyr.

Cadarnhaodd staff y ward fod y cleifion yn cael cynnig y cyfle i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd, yn ôl eu dymuniadau. Gwelsom fod staff ar gael i gefnogi'r cleifion hynny ac arnynt angen cymorth a chefnogaeth i fwyta ac yfed. Cadarnhaodd y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron fod y staff yn eu helpu. Gwnaethom edrych ar sampl o siartiau monitro bwyd a gweld eu bod wedi'u cwblhau a'u bod yn gyfredol. Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer caffael bwyd pellach pe bai claf yn methu pryd bwyd.

Gwelsom fod dŵr yfed ar gael yn rhwydd. Esboniodd y staff fod y jygiau dŵr yn cael eu newid ddwywaith y dydd. Nid yw hyn yn unol â *Safonau maeth ac arlwyo Cymru gyfan ar gyfer bwyd a hylif i gleifion preswyl mewn ysbytai*, sy'n argymhell y newidir jygiau dŵr deirgwaith y dydd. Nid yw, ychwaith, yn adlewyrchu'r cam gweithredu disgrifiodd y bwrdd iechyd y byddai'n ei gymryd yn dilyn ein harolygiad diwethaf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i newid y jygiau dŵr, fel rheol, deirgwaith y dydd, yn unol â Safonau maeth ac arlwyo Cymru gyfan ar gyfer bwyd a hylif i gleifion preswyl mewn ysbytai.

Dywedwyd wrthym, fodd bynnag, y byddai staff, pe bai cleifion yn gofyn am ddŵr yfed ffres, yn newid y jygiau dŵr yn ôl y galw. Cadarnhaodd sylwadau a wnaethpwyd gan y cleifion yn yr holiaduron fod ganddynt fynediad at ddŵr yfed ar bob adeg.

Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir (Safon 2.6).

Ers ein harolygiad diwethaf, gwnaethpwyd trefniadau i gadw meddyginiaeth yn ddiogel, fel y cadarnhawyd yn ymateb y bwrdd iechyd i'n harolygiad blaenorol. Cadwyd yr ystafell storio meddyginiaeth dan glo i rwystro pobl heb ganiatâd rhag mynd i mewn i'r ystafell. Cadwyd y cypyrddau a'r oergell gyffuriau yn yr ystafell dan glo hefyd fel mesur diogelwch ychwanegol.

Ni welsom unrhyw feddyginiaeth heb oruchwyliwr wrth ochr gwllâu'r cleifion. Gwelsom y staff nyrsio yn gweinyddu meddyginiaeth i gleifion mewn modd diogel a gwelsom fod y nyrs yn cyflawni gwiriadau i sicrhau bod y claf cywir yn derbyn y feddyginiaeth gywir ar yr amser cywir.

Mae gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl ar unrhyw adeg. (Safon 2.7)

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal cleifion. O fewn y sampl hon, gwnaethom edrych ar chwe chofnod claf, gan ganolbwyntio ar sut y darparwyd gofal cleifion yn unol â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.²

²Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid – Y fframwaith diogelwch dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ar gyfer pobl y bydd rhaid iddynt, er eu budd pennaf, gollu eu rhyddid mewn

Roedd gan bob un o'r cofnodion y gwnaethom eu harsylwi waith papur priodol wedi'i gwblhau ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Esboniodd uwch-staff y ward fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod staff y ward yn cydymffurfio â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac yn cwblhau'r gwaith papur perthnasol.

Dangosodd ein canfyddiadau fod tîm y ward yn deall eu cyfrifoldebau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Dangosodd y sgysiau hyn ag uwch-staff y ward a'r ysbyty fod camau gweithredu wedi cael eu cymryd gan y bwrdd iechyd fel y disgrifiwyd yn ei ymateb yn dilyn ein harolygiad blaenorol.

Gofal effeithiol

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol. (Safon 3.5)

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal cleifion. O fewn y sampl hon, gwnaethom edrych yn fanwl ar gofnodion gofal dau glaf er mwyn ystyried y broses cynllunio gofal ysgrifenedig ac ansawdd y gwaith o gadw cofnodion. Gwnaethom siarad hefyd ag uwch-staff y ward i ddarganfod sut y dylai staff gwblhau'r rhain. Defnyddiai'r ward gynlluniau gofal rhagargraffedig. Roedd disgwyl i staff y ward arwyddo taflen crynodeb gwerthuso ddyddiol yn cadarnhau bod gofal wedi cael ei ddarparu yn unol â'r disgrifiad yn y cynllun gofal. Yn ogystal, roedd taflen gofnodi ddyddiol ar gael i'r staff gael ysgrifennu manylion pellach o ran cynnydd cleifion. Dywedwyd wrthym y dylai staff ddiweddarau'r cynlluniau gofal gydag unrhyw newidiadau yn unol â hynny.

Roedd gan bob claf gynllun gofal ysgrifenedig a gwelwyd bod cofnodion monitro'n gyflawn a chyfredol. Roedd *Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan* a'r *Bwndel SKIN*³ ymysg y cofnodion monitro y gwnaethom eu gweld.

ysbyty neu gartref gofal er mwyn derbyn gofal neu driniaeth ac nad ydynt yn meddu ar y gallu i roi caniatâd i'r trefniadau a wnaethpwyd ar gyfer eu gofal neu eu triniaeth.

³Bwndel SKIN – Dull cyfannol sy'n sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn y gofal priodol i atal niwed gwasgu.

Cafodd staff eu hannog gan gyflwyniad y cynlluniau gofal ysgrifenedig i werthuso elfennau unigol o'r cynlluniau gofal, ond nid dyma oedd yr arfer ar y ward. Fel y disgrifiwyd uchod, roedd disgwyl i'r staff arwyddo crynodeb gwerthuso dyddiol. Gwelsom fod dull anghyson ar waith gyda'r staff o ran gwerthuso'r cynlluniau gofal. Ymddangosodd fod hyn wedi golygu bod rhai elfennau o gynllun gofal un claf bellach yn amherthnasol neu'n anghywir. Er enghraifft, cyfeiriodd at glaf yn dal i dderbyn trwythiad hylif isgroenol, ond gwelsom nid fel hyn oedd hi bellach. Yn ogystal, cyfeiriodd at gamau i leihau'r risg o'r claf yn cwmpo, ond nid oedd hyn yn gyson â'r asesiad risg a gwblhawyd ynghynt. Gwnaethom hysbysu uwch-staff y ward o'n canfyddiadau a chytunwyd bod angen gwneud gwelliannau.

Yn dilyn ein harolygiad diwethaf, cadarnhaodd y bwrdd iechyd ei fod yn adolygu ei ddogfennaeth nyrsio a bod y gwaith hwn yn barhaus. Er i ni ystyried sampl fach yn unig, dylai'r bwrdd iechyd ystyried ein canfyddiadau a gwneud trefniadau i sicrhau bod dull cyson ar waith o ran cwblhau cofnodion gofal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried ein canfyddiadau mewn perthynas â chadw cofnodion a gwneud trefniadau i sicrhau bod y staff yn defnyddio dull cyson wrth gwblhau cofnodion gofal a bod cofnodion gofal yn gywir a chyfredol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Dangosodd ein canfyddiadau adeg ein harolygiad fod digon o staff â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir i ddiwallu anghenion gofal y cleifion. Dywedwyd wrthym y gellir gofyn am staff ychwanegol i weithio er mwyn sicrhau bod digon o staff yn gweithio ar y ward.

Staff ac adnoddau

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu anghenion. (Safon 7.1)

Ar ddiwrnod ein harolygiad, roedd tair nyrs gofrestredig (gan gynnwys rheolwr y ward), tri gweithiwr cymorth gofal iechyd a dau fyfyrwr nyrsio'n gweithio ar y ward.

Gwelsom y staff yn ymateb i geisiadau'r cleifion yn amserol ac ymddangosai fod cleifion yn derbyn gofal da. Yn ystod amser cinio, gwelsom y staff yn cynorthwyo cleifion gyda'u prydau. Hefyd, gwelsom staff yn helpu cleifion i ddefnyddio'r toiled trwy gydol y dydd.

Dyweddodd uwch-staff y ward wrthym y gellid gofyn am staff ychwanegol i weithio er mwyn sicrhau bod digon o staff yn gweithio ar y ward. Cyflenwyd y staff hyn gan fanc nyrsys y bwrdd iechyd, asiantaeth nyrsio, neu o fannau eraill yn yr ysbyty. Ar adeg ein harolygiad, dywedwyd wrthym fod ceisiadau am staff i weithio yn cael eu gwneud yn rheolaidd. Fodd bynnag, roedd adegau pan nad oedd hi'n bosibl darparu staff. Ar yr adegau hynny, gofynnwyd i staff y ward newid eu patrwm gweithio i wasanaethu amserau prysurach.

Gwnaethom wahodd y staff a oedd yn gweithio ar y ward i gwblhau holiadur i rannu eu safbwyntiau gyda ni, gan gynnwys eu safbwyntiau ar hyfforddiant, gofal cleifion a'u rheolwyr. Dychwelwyd cyfanswm o bedwar o holiaduron wedi'u cwblhau. Pan ofynnwyd p'un a oeddent yn teimlo bod digon o staff, dangosodd y sylwadau, ar y cyfan, eu bod yn teimlo bod digon o staff er mwyn iddynt wneud eu swydd yn iawn. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal roeddent yn ei ddarparu i'r cleifion a bod y gofal hynny'n hybu'r cleifion i fod mor annibynnol ag y byddai eu cyflyrau yn caniatáu.

Dyweddodd y staff a wnaeth ddychwelyd holiadur atom eu bod wedi mynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd. Er i ni dderbyn sylwadau cymysg, nododd y staff eu bod, ar y cyfan, yn cael eu hannog i weithio fel tîm gan eu rheolwyr a bod cyfathrebu'n effeithiol.

Wrth ymateb i'n harolygiad blaenorol, disgrifiodd y bwrdd iechyd ystod o gamau gweithredu er mwyn sicrhau bod digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion cleifion y ward. Roedd hi'n amlwg o sgysiau a gawsom gydag uwch-staff y ward a'r ysbyty bod llawer o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod digon o staff yn gweithio ar Ward 3 ac ar wardiau eraill yr ysbyty. Adlewyrchodd hyn y camau gweithredu a ddisgrifiwyd gan y bwrdd iechyd.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno hwn i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau/unedau eraill y bwrdd iechyd.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pryd bydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A

Arolygiad Ysbyty: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Cwm Cynon

Ward / Adran: Ward 3

Dyddiad yr arolygiad: 5 Mai 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
8	Disgwylir i'r bwrdd iechyd ymchwilio'r rhesymau pam na chynhaliwyd y defnydd o ddull asesu poen ar y ward. Disgwylir hefyd i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cofnodi eu hasesiad o boen cleifion, eu gwerthusiad o'r camau gweithredu a gymerwyd i leddfu poen y cleifion, ac unrhyw gamau gweithredu pellach a gymerwyd yn dilyn y gwerthusiad hwn.	Safon 4.1	Defnydd o'r dulliau asesu poen a arbrofwyd ar Ward 2 Ysbyty Cwm Cynon. Ymarferydd nyrsio i archwilio'r defnydd o'r dull ar gyfer yr ardal beilot. Bydd dull asesu poen ar waith ar gyfer cleifion ar bob ward yn Ysbyty Cwm Cynon. Bydd staff yn monitro lefel a math o boen y cleifion.	Ymarferydd Nyrsio Rheolwr y Ward	Mis Gorffennaf 2016 Mis Awst 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>Caiff y dull asesu poen ei ddefnyddio hefyd i nodi effeithiau unrhyw driniaeth/analgesia a roddir.</p> <p>Caiff Cynllun Gweithredu Nyrso rhagnodedig ar gyfer poen ei gychwyn ar gyfer unrhyw glaf sy'n arddangos poen neu sydd angen analgesia.</p> <p>Uwch-nyrs / Ymarferydd nyrsio i archwilio'r defnydd o ddulliau asesu poen ar bob ward.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Uwch-nyrs / Ymarferydd Nyrsio</p>	<p>Mis Awst 2016</p> <p>Mis Medi 2016</p>
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
11	Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i newid y jygiau dŵr, fel rheol, deirgwaith y dydd, yn unol â <i>Safonau maeth ac arlwyo Cymru gyfan ar gyfer bwyd a hylif i gleifion preswyl mewn ysbytai.</i>	Safon 2.5	<p>Staff arlwyo i sicrhau bod y jygiau dŵr yn cael eu newid, fel rheol, ddwywaith y dydd. Staff nyrsio i sicrhau bod y jygiau dŵr yn cael eu newid unwaith y dydd.</p> <p>Dylid cynnig dŵr yfed ffres, fel rheol, i gleifion, newid y jygiau dŵr o leiaf teirgwaith y dydd ac yn unol â cheisiadau'r cleifion.</p>	<p>Staff y ward / arlwyo.</p> <p>Staff y ward / arlwyo.</p>	<p>Mis Gorffennaf 2016</p> <p>Mis Gorffennaf 2016</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
12	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried ein canfyddiadau mewn perthynas â chadw cofnodion a gwneud trefniadau i sicrhau bod y staff yn defnyddio dull cyson wrth gwblhau cofnodion gofal a bod cofnodion gofal yn gywir a chyfredol.	Safon 3.5	<p>Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wrthi'n adolygu'r holl ddogfennaeth nyrsio.</p> <p>Mae hyfforddiant dogfennaeth ar gael ar gyfer yr holl staff. Rheolwyr ward i sicrhau bod dull cyson o ran cwblhau dogfennaeth nyrsio.</p> <p>Cwblheir archwiliad hanfodion gofal ddwywaith y flwyddyn.</p> <p>Caiff pob nyrs gofrestredig ei hatgoffa o'i dyletswydd dan God Ymddygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ynghylch safonau cadw cofnodion.</p> <p>Rheolwyr ward i fonitro bod staff yn cwblhau ac yn gwerthuso cynlluniau gofal cleifion yn gyflawn, at y safon ofynnol, gan sicrhau bod y cynlluniau gweithredu nyrsio</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Rheolwyr ward</p> <p>Rheolwyr ward/Uwch-nyrs</p> <p>Rheolwyr ward/Uwch-nyrs</p> <p>Rheolwyr ward/Uwch-nyrs</p>	<p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p> <p>Mis Hydref / Ebrill</p> <p>Mis Mehefin 2016</p> <p>Mis Mehefin 2016</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>rhagnodedig yn unigoledig ac yn berthnasol i'r claf. Sicrhau y caiff cynlluniau gofal cleifion eu diweddarau gydag unrhyw newidiadau a'u bod yn adlewyrchu anghenion a sefyllfa gyfredol y cleifion.</p> <p>Uwch-nyrs i archwilio'r ddogfennaeth, i fonitro cydymffurfiaeth. Darperir adborth.</p>	Uwch-nyrs	Mis Medi 2016
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
-	Dim angen cynllun gwella.				

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: